# Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cymru

# Chwefror 2017

**Dyma'r pedwerydd mewn cyfres o bedwar o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraf.**

**Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar** ar ein calendr cyhoeddiadau

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)**
Ym mis Hydref gofynnwyd i ddefnyddwyr beth oedd eu barn am amseriad y rhifyn nesaf o WIMD. Rydym yn adolygu'r ymatebion a'r dewisiadau, a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd gennym ragor o wybodaeth am ein cynlluniau. Ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd diweddariad ar ddata dangosyddion WIMD ar StatsCymru a diweddaru canllawiau ar gyfer dadansoddi data dangosyddion. Rydym yn bwriadu diweddaru'r dangosyddion trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu yn fuan.

**Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog**
Hefyd ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd dadansoddiad newydd Llywodraeth Cymru o setiau data "Plant mewn tlodi incwm cymharol" Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog.

**Sgôr Difrifoldeb Trosedd ar gyfer Cymru a Lloegr**
Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd yr ONS erthygl ymchwil ac adnodd data yn ymwneud â datblygiad Sgôr Difrifoldeb Trosedd ar gyfer Cymru a Lloegr.

## Iechyd

**Disgwyliad oes cyflyrau iechyd, DU: 2013 i 2015**
Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd yr ONS fwletin sy'n adrodd ar amrywiadau yn nisgwyliad oes cyflyrau iechyd ar gyfer y DU yn ystod y cyfnod o 2013 i 2015. Dyma'r cyhoeddiad cyntaf o'i fath i gynnwys holl ardaloedd lleol y DU.

**Cyhoeddiadau Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyhoeddwyd sawl allbwn gwasanaethau cymdeithasol:
Cofrestri amddiffyn plant awdurdodau lleol
Cofrestri awdurdodau lleol o bobl ag anableddau
Maethu preifat
Achosion o fabwysiadu, canlyniadau a lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fesul awdurdodau lleol

Gwefan Llywodraeth Cymru:Iechyd a gofal cymdeithasol ystadegau
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
ystadegau.iechyd@cymru.gsi.gov.uk

## Trafnidiaeth

Rydym wedi cyhoeddi datganiadau ar Draffig Ffordd, Troseddwyr Moduro, Hyd a Chyflwr Ffyrdd, ac Yfed a Gyrru; ac rydym yn parhau i gynyddu nifer y setiau data ar StatsCymru (troseddwyr moduro, hyd y chyflwr y ffyrdd a draffig ffyrdd).

Rydym yn datblygu ystadegau cyflymder cyfartalog ar hyn o bryd ar gyfer Traffyrdd. Mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar ddata cyflymder o set ddata fasnachol (TrafficMaster). Yn rhan o gontract rydym wedi cynnwys cwmpas i drosglwyddo data i awdurdodau lleol. Er hyn, nid yw hon yn dasg rhwydd; o ystyried maint a strwythur y set ddata. Rydym yn gobeithio cwblhau'r broses ym mis Ebrill. Byddwn yn diweddaru'r PCYC pan fydd gennym fwy o wybodaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar allbynnau ystadegol trafnidiaeth yn ystod y misoedd sydd i ddod. Bydd hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
ystadegau.trafnidiaeth@cymru.gsi.gov.uk

## Ystadegau demograffig

Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cwestiynau ar gyfer Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi comisiynu IPSOS-Mori i gynnal ymchwil i ba mor dderbyniol i'r cyhoedd y byddai i gynnwys cwestiynau am hunaniaeth o ran rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd yn y cyfrifiad nesaf.

Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cwestiynau ar gyfer Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 mae'r ONS wedi cynnwys cwestiwn ar wirfoddoli (am y tro cyntaf).

Mae'r rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2014 ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Rhagamcanion Aelwydydd ar gyfer Awdurdodau Lleol (yng Nghymru) i'w cyhoeddi ar 23 Mawrth 2017.

Mae Calendr Datganiadau yr ONS yn nodi dyddiad dros dro ar gyfer rhyddhau *Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, Yr Alban, a Gogledd Iwerddon: Canol-2016* fel ag yr oedd ym mis Mehefin 2017.

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Addysg a Sgiliau

Mae gwefan Fy Ysgol Leol bellach wedi'i diweddaru â'r holl ddata ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 gan gynnwys categorïau cynradd ac uwchradd.

Mae dau ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynghylch data addysg:-

Lansiwyd ymgynghoriad ynglŷn â chasglu data am wybodaeth lefel unigol ar **weithlu ysgolion** yng Nghymru ar 13 Ionawr 2017. Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â rheoliadau statudol drafft arfaethedig y mae'r ymgynghoriad, a fyddai'n:
•ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl ar weithlu ysgolion
•ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor y Gweithlu Addysg ddarparu data ar y gweithlu ysgol o'i Gofrestr o Ymarferwyr Addysg
•symleiddio casgliadau data sydd eisoes yn bodoli i ddarparu gwybodaeth o ansawdd uwch a gostwng y baich ar ddarparwyr data.
Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **3 Mawrth 2017**.

Anfonwyd ymgynghoriad ar y dull o **fesur canlyniadau dysgu ôl-16** yn y chweched dosbarth a cholegau addysg bellach ar 30 Ionawr 2017. Mae'r mesuriadau presennol o ddeilliannau dysgwyr yn y chweched dosbarth a sectorau addysg bellach yn gwbl ar wahân, ac mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar ddull newydd gyson ar draws y sector ôl-16.
Mae'r ymgynghoriad hwn yn cau ar **1 Mai 2017**.

Mae'r ddwy ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Yr Economi a'r Farchnad Lafur

Mae CThEM wedi gwneud dau newid o ran methodoleg wrth greu data masnach. Yn gyntaf, cesglir data ar sail masnach arbennig bellach yn hytrach nag ar sail masnach cyffredinol. Ceir rhagor o wybodaeth yma.

> *Under the special trade system, goods imported into customs warehouses and free zones are now only recorded once they enter free circulation or certain other special customs procedures.*

Yn ail, mae'r dull o wahanu data mewnforion ac allforion i wledydd a rhanbarthau'r DU wedi newid o fod yn seiliedig ar leoliad pencadlys busnes i gyfran cyflogaeth y busnes yn y rhanbarth. Mae'r newid hwn wedi achosi i'r canran o allforion i'r UE o Gymru gynyddu o 39 y cant i 67 y cant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2016. Mae'r data diweddaraf ar gael yn StatsCymru.

Mae'r newidiadau hyn wedi achosi anghysondeb rhwng offeryn lledaenu CThEM a StatsCymru. Cyhoeddwyd cyfres amser i 2013Q1, wedi'i diwygio, gan ddefnyddio methodoleg newydd, ar StatsCymru ond nid ar offeryn CThEM.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar allbynnau ystadegol yr economi a'r farchnad lafur yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: ystadegau.economi@cymru.gsi.gov.uk

## Arolwg Cenedlaethol

**Canlyniadau a dadansoddi**

- Yn ddiweddar cyhoeddwyd bwletinau sy'n cyflwyno canlyniadau 2014-15 ar Cymorth rhieni â llythrennedd a rhifedd a Lles anifeiliaid anwes.
- Yn ystod hydref 2016, cyhoeddwyd adroddiadau ar ddau arolwg ailgysylltu, yn holi cwestiynau mwy manwl i is-sampl o ymatebwyr ynglŷn â gwasanaethau iechyd ac addysg,.

**Arolwg Cenedlaethol – 2016-17**

- O 2016-17, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cwmpasu pynciau a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol yn Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru a'r Arolwg Oedolion Egnïol. Gall y newid hwn arwain at ddiffyg parhad yng nghyfresi amser rhai pynciau. Rydym wedi comisiynu prosiect i nodi'r rhain a chaiff y canfyddiadau eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2017.
- Ym mis Mehefin 2017, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau cyntaf o arolwg 2016-17. Ymgynghorwyd â defnyddwyr arolygon am ein cynlluniau adrodd ym mis Medi 2016. Cyhoeddwyd yn ddiweddar adroddiad yn cyflwyno'r crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn.

**Arolwg Cenedlaethol – 2017-18**

- Cynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer arolwg 2017-18 yn ddiweddar. Cyhoeddwyd y pynciau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eu cynnwys yn 2017-18 ar ein gwefan.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar wefan Arolwg Cenedlaethol Cymru neu drwy gysylltu â arolygon@cymru.gsi.gov.uk

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Yr Amgylchedd a Thai

Mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd cynlluniau i fuddsoddi mewn gwell data ar gyflwr tai ac effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru. Hefyd mae'r Prif Ystadegydd wedi cyhoeddi flog am hyn yn ddiweddar.
Bydd y rhaglen tair blynedd yn cynnwys:

- Arolwg o gyflwr tai ar draws Cymru yn 2017-18
- Gwaith modelu a dadansoddi ar gyflwr tai a thlodi tanwydd
- Modelu'r gwaith o ddatblygu a chynnal 'cronfa sylfaen anheddau', a fydd yn dwyn ynghyd ddata anhysbys sy'n bodoli'n barod o amrywiaeth eang o ffynonellau ynglŷn â thai yng Nghymru; er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau. Hefyd mae cynlluniau ar y gweill i gysylltu â datblygiadau sylweddol eraill mewn cysylltiad â data, gan gynnwys y rhai hynny yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddwyd y datganiad blynyddol 'Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru 2015-16' ar 19 Hydref 2016. Cyhoeddwyd targed newydd i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy a fydd yn cynnwys cymorth drwy'r cynllun Cymorth i Brynu. Rydym ni wrthi'n adolygu'r data sydd wedi'i gasglu ar dai fforddiadwy.

Ym mis Awst 2016, cyhoeddwyd y datganiad blynyddol cyntaf yn ymwneud â digartrefedd statudol o dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd newydd. Ar 1 Chwefror 2017, byddwn ni'n cyhoeddi'r ail mewn cyfres o ddatganiadau blynyddol a fydd yn cynnwys y Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016. Cyflwynir y rhain fel ystadegau arbrofol a byddwn ni'n cysylltu â defnyddwyr am adborth yn dilyn cyhoeddi.

Cyhoeddwyd yr adroddiadau ymchwil tai canlynol yn ddiweddar:

- **Deall economeg y diwydiant cartrefi mewn parciau yng Nghymru** a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016.
- Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf (sylfaenol) gan dîm **Gwerthuso Rhentu Doeth Cymru** (cofrestru a thrwyddedu landlordiaid yng Nghymru), ym mis Tachwedd 2016.

Mae'r prosiectau canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

- Gwerthuso **Gofal Ychwanegol yng Nghymru.** Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2017.
- Gwerthuso'r **Ddeddfwriaeth Ddigartrefedd** (Deddf Tai (Cymru) 2014) hefyd ar y gweill. Disgwylir i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi yn rhan o'r gwaith gwerthuso hwn yng Ngwanwyn 2017.
- Mae'r **Prosiect Data Gweinyddol ar Gefnogi Pobl** bellach ar y gweill. Prosiect tair blynedd yw hwn a disgwylir yr adroddiad cyntaf yn 2017.


### Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

**Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau**
E-bost: desg.ystadegau@cymru.gsi.gov.uk   Ffôn: 0300 060 4400

**Yn benodol i'r pwnc**
http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy

**Twitter**
https://twitter.com/ystadegaucymru

**Gwasanaeth newyddion a rhybuddion e-bost Llywodraeth Cymru**
http://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy

**Ymholiadau Gweinyddol**
E-bost: gweinydduggd@cymru.gsi.gov.uk